WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Er Budd y Cyhoedd – Diffygion o ran Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol – **Cyngor Cymuned Llanfairpwll**


Blwyddyn archwilio: 2016-17 a 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1348A2019-20

Paratowyd yr adroddiad hwn sydd er budd y cyhoedd yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw swyddog, aelod nac unrhyw un arall yn ei gymhwyster unigol nac unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Hefin Davies a Deryck Evans dan oruchwyliaeth Anthony Barrett.

# Cynnwys

Gan weithredu dan drefniadau wedi'u dirprwyo ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau mewn trefniadau llywodraethu a diffygion mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Llanfairpwll.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi nifer o fethiannau o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Llanfairpwll ac yn gwneud argymhellion ar gyfer mynd i'r afael â'r methiannau hynny. Rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wnaed, yn unol ag adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio amodol ar Ffurflenni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2016-17 a 2017-18.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau allweddol 5

Barn archwilio 6

Argymhellion a'r camau nesaf 6

Adroddiad manwl

Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r amserlenni statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo'i gyfrifon ar gyfer 2016-17 a 2017-18 9

Nid yw'r Cyngor wedi cynnal rheolaethau mewnol digonol i ddiogelu ei asedau a'i gyllid 11

Nid yw'r Cyngor wedi dangos bod archwiliad mewnol digonol ac effeithiol yn cael ei gynnal 12

Nid yw'r Cyngor wedi dangos ei fod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldeb statudol i weinyddu TWE yn briodol ac i ddarparu datganiad ysgrifenedig ar yr amodau a thelerau cyflogaeth ar gyfer ei glerc 12

Nid oes digon o dystiolaeth i gadarnhau a oes trefniadau priodol wedi cael eu gwneud ar gyfer arfer hawliau'r cyhoedd ai peidio 13

Mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'i ddyletswyddau cyfreithiol i fabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau ac i gadw cofrestr o fuddiannau'r aelodau 14

Er bod gwefan gan y Cyngor, nid yw'n cyhoeddi'r holl ddogfennau y mae'n ofynnol iddo'u cyhoeddi'n electronig 15

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghasgliadau sy'n deillio o'm harchwiliad o gyfrifon Cyngor Cymuned Llanfairpwll (y Cyngor) ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18. Yn ystod yr archwiliad, canfûm fethiannau arwyddocaol mewn trefniadau llywodraethu a diffygion mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol.

2 Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at y methiannau hyn mewn trefniadau llywodraethu a'r diffygion mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yn y Cyngor. Credaf ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor.

3 Rwyf hefyd yn ei hystyried yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau ac i sicrhau bod y risg y bydd methiannau o'r fath mewn trefniadau llywodraethu'n digwydd eto'n cael ei lleihau i'r eithaf. Mae gwersi i'w dysgu nid dim ond gan y Cyngor ond gan yr holl gynghorau cymuned yng Nghymru.

## Cyngor Cymuned Llanfairpwll

4 Mae'r Cyngor yn gwasanaethu cymuned fach Llanfairpwll ar Ynys Môn. Mae'n gwario rhyw £40,000 y flwyddyn ar wasanaethau lleol. Mae'n cyllido hwn yn bennaf â phraesept gan Gyngor Sir Ynys Môn. Mae'r Cyngor Sir yn casglu'r praesept trwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion y Cyngor. Hefyd, mae'r Cyngor yn codi arian trwy ffioedd claddu a thaliadau am ddefnyddio'i asedau. Mae'r Cyngor yn cael ei gyllid o bwrs y wlad a chaiff ei aelodau eu hethol gan drigolion lleol. Mae'r Cyngor, felly, yn atebol i'r etholaeth leol.

5 Mae cynghorau cymuned fel Llanfairpwll yn dibynnu fel arfer ar un swyddog allweddol, y Clerc, i reoli eu materion gweinyddol. Yn amlach na pheidio, penodir y Clerc yng nghymhwyster Swyddog Cyllid Cyfrifol hefyd. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor o ddydd i ddydd. Yn arbennig, mae hyn yn cynnwys cael a chofnodi incwm, paratoi taliadau â siec i'w llofnodi gan aelodau, cynnal y cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol.

6 Er bod rôl y Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol yn bodoli, yn ôl y gyfraith (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014)), mae'r cyfrifoldeb am warchod arian y Cyngor, gan gynnwys sicrhau bod ganddo reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon, yn gorwedd gyda'r Cyngor (hynny yw, yr aelodau). Mae hyn yn cynnwys pethau megis sefydlu system briodol o reolaeth ariannol, gan gynnwys archwilio mewnol, a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol i gael eu harchwilio.

## Fy ngwaith archwilio

7 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau tref a chymuned yn canolbwyntio ar ffurflen flynyddol a gwblheir gan y cynghorau ac a gyflwynir i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r ffurflen flynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r cyngor eu paratoi a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.

8 Fe wnaeth oedi cyn cael y ffurflenni blynyddol ar gyfer 2016-17 a 2017-18 beri i'r archwilwyr a oedd yn gweithio ar fy rhan atgyfeirio Cyngor Cymuned Llanfairpwll ataf fi. Mae hyn wedi arwain at neilltuo'r archwiliadau hyn o'r cyfrifon i aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gweithio dan fy nghyfarwyddyd i, er mwyn eu cwblhau'n foddhaol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Er ein bod wedi cael papurau ategol, rydym yn dal i ddisgwyl cael ffurflenni blynyddol cymeradwy'r Cyngor ar gyfer 2016-17 a 2017-18.

9 Caiff canfyddiadau fy archwiliad, sy'n datgelu elfennau o lywodraethu gwael a rheolaeth ariannol wael, eu crynhoi isod a chânt eu hystyried mewn mwy o fanylder yng ngweddill y ddogfen hon.

# Canfyddiadau allweddol

10 Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r amserlenni statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo'i gyfrifon ar gyfer 2016-17 a 2017-18.

11 Nid yw'r Cyngor wedi cynnal rheolaethau mewnol digonol i ddiogelu ei asedau a'i gyllid.

12 Nid yw'r Cyngor wedi dangos bod archwiliad mewnol digonol ac effeithiol yn cael ei gynnal.

13 Nid yw'r Cyngor wedi dangos ei fod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldeb statudol i weinyddu TWE yn briodol ac i ddarparu datganiad ysgrifenedig ar yr amodau a thelerau cyflogaeth ar gyfer ei glerc.

14 Ni ddarparwyd tystiolaeth ddigonol ar fy nghyfer i ddangos bod y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 sydd (ymhlith pethau eraill) yn rhoi hawliau i'r cyhoedd edrych ar y cyfrifon fydd yn cael eu harchwilio.

15 Mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'i ddyletswyddau cyfreithiol i fabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau ac i gadw cofrestr o fuddiannau'r aelodau.

16 Er bod gwefan gan y Cyngor, nid yw'n cyhoeddi'r holl ddogfennau y mae'n ofynnol iddo'u cyhoeddi'n electronig, megis cofrestr o fuddiannau'r aelodau, hysbysiadau archwilio, cyfrifon archwiliedig a chofnodion yr holl gyfarfodydd.

17 Mae'n amlwg i mi nad yw'r Cyngor wedi cymryd camau digonol i'w argyhoeddi ei hun bod ei drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol yn effeithiol. Nid yw aelodau'r Cyngor wedi cydnabod materion mewn perthynas â digonolrwydd y trefniadau hyn nac wedi gweithredu arnynt yn ddigonol.

18 Mae'r adran nesaf o'r adroddiad hwn yn nodi'r diffygion a'r gwendidau yn nhrefniadau'r Cyngor a oedd yn amlwg i mi yn ystod yr archwiliad.

# Barn archwilio

19 Oherwydd y materion yr wyf wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn rwy'n bwriadu cyhoeddi barn archwilio amodol fel a nodir isod:

- mae'r Cyngor wedi methu â chynnal cofnodion cyfrifyddu priodol fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliad 6 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac felly nid wyf yn gallu dod i gasgliad pa un a yw'r datganiadau cyfrifyddu wedi cael eu paratoi yn unol ag arferion priodol a'r Rheoliadau;
- nid yw'r honiadau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael eu hategu gan y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad ac nid ydynt yn adlewyrchu trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol y Cyngor.
- nid yw'r Cyngor yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol ar gyfer:
  – cynnal system ddigonol ac effeithiol ar gyfer archwilio mewnol fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014;
  – mabwysiadu cod ymddygiad aelodau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;
  – cadw cofrestr o fuddiannau'r aelodau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000; a
  – chyhoeddi dogfennau dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

# Argymhellion a'r camau nesaf

## Fy argymhellion

20 Ar sail fy adolygiad, rwy'n tynnu sylw'r Cyngor at yr argymhellion canlynol:

Arddangosyn 1: argymhellion

Rwy'n gwneud saith argymhelliad i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi a'i gymeradwyo cyn 30 Mehefin bob blwyddyn, yna'n cael ei anfon yn brydlon at yr Archwilydd Cyffredinol i gael ei archwilio, ac yn cael ei gyhoeddi erbyn 30 Medi. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A2 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod ganddo reolaethau mewnol priodol i ddiogelu ei arian cyhoeddus. |
| A3 | Dylid rhoi gorchwyl i archwilydd mewnol i gyflawni rhaglen o waith y cytunwyd arni ac adrodd wrth y Cyngor ar ei ganfyddiadau. Dylai ei berfformiad gael ei ystyried yn flynyddol a dylid cofnodi'r penderfyniad i'w ailbenodi. |
| A4 | Dylai'r Cyngor sicrhau yr ymlynir wrth hawliau etholwyr i edrych ar y cyfrifon blynyddol ac ymgysylltu â'r archwilydd allanol (os ydynt yn dymuno) ac y dangosir tystiolaeth o hynny. |
| A5 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn mabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau ar y cyfle cynharaf. |
| A6 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn paratoi ac yn cynnal cofrestr o fuddiannau'r aelodau. |
| A7 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn adnabod pa ddogfennau y mae'n ofynnol iddo'u cyhoeddi'n electronig a'i fod yn gwneud trefniadau priodol i osod y rhain ar ei wefan yn brydlon. |

## Camau gweithredu a gymerwyd eisoes gan y Cyngor

21 Mae'n bwysig bod y Cyngor yn dysgu o'r canfyddiadau hyn ac yn mynd i'r afael â'r diffygion yr wyf wedi'u nodi. Mae'r Cyngor wedi fy hysbysu ei fod eisoes wedi cymryd rhai camau i wella'i drefniadau gan gynnwys:

- Adolygu rheolaethau a systemau ariannol mewnol y Cyngor a chyflwyno gweithdrefnau newydd gan gynnwys ymarferion cysoni â chyfriflenni banc ac adrodd ar y gyllideb;
- Mae'r Cyngor wedi penodi archwilydd mewnol newydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19;
- Mae Cod Ymddygiad wedi cael ei fabwysiadu ac mae aelodau wedi ymrwymo i ymlynu wrth y Cod;
- Bydd cofrestr newydd o fuddiannau'r aelodau'n cael ei chyflwyno o fis Tachwedd 2019; ac
- Mae gwefan newydd wrthi'n cael ei datblygu gyda'r wefan newydd i fod i fynd yn fyw o fis Rhagfyr 2019.

# Y camau nesaf

22 Mae adran 25 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fynd ati yn awr i ystyried yr adroddiad yn un o gyfarfodydd y Cyngor llawn o fewn un mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad gennyf fi. Yn y cyfarfod hwnnw, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
- a yw'r argymhellion yn yr adroddiad yn mynd i gael eu derbyn; a hefyd
- pa gamau (os o gwbl) ddylid eu cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

23 Wedyn bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb.

Anthony Barrett

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

Hydref 2019

# Adroddiad manwl

## Nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r amserlenni statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo'i gyfrifon ar gyfer 2016-17 a 2017-18

24 Dan Adran 13 o Ddeddf Archwilio (Cymru) 2004, rhaid i'r Cyngor:

- baratoi ei gyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth neu ba bynnag ddyddiad arall y gall Gweinidogion Cymru ei gyfarwyddo'n gyffredinol neu mewn unrhyw achos arbennig; a
- sicrhau bod ei gyfrifon yn cael eu harchwilio yn unol â Deddf 2004 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

25 Mae Rheoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi ei gyfrifon yn unol ag arferion priodol. Caiff arferion priodol eu nodi yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cyngor Clercod Cynghorau Lleol 'Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer cynghorau lleol yng Nghymru: Canllaw ar gyfer ymarferwyr' (y Canllaw ar gyfer Ymarferwyr).


26 Mae Rheoliad 15 o Reoliadau 2014 yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol:

- rhaid i Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor baratoi'r cyfrifon ac ardystio eu bod yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r cyngor yn briodol, neu'n rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol ac incwm a gwariant y cyngor. Mae'r Swyddog Cyllid Cyfrifol yn rhoi llofnod a dyddiad i ddangos ei fod wedi ardystio'r datganiadau ariannol. Darperir ar gyfer llofnod a dyddiad mewn ffurflen flynyddol.
- rhaid i aelodau'r cyngor ystyried y datganiadau cyfrifyddu mewn cyfarfod llawn ac, yn dilyn eu hystyried, cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu ar gyfer eu cyflwyno i'r archwilydd trwy benderfyniad gan y cyngor; ac yn dilyn eu cymeradwyo, sicrhau bod y sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod lle rhoddwyd y gymeradwyaeth honno i'r datganiadau ariannol yn rhoi llofnod a dyddiad arnynt.
- rhaid cwblhau'r camau hyn erbyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol.

27 Cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r ffurflen flynyddol rhaid iddi gael ei hanfon at yr archwilydd allanol y mae'n rhaid iddo yntau yn ei dro gwblhau ei archwiliad erbyn 30 Medi fan bellaf. Crynhoir y broses yn Arddangosyn 2 isod:

## Arddangosyn 2: y broses ar gyfer y cyfrifon ac archwilio

Mae'r trefniadau ar gyfer y cyfrifon ac archwilio'n dilyn y broses a nodir isod.




Ffynhonnell: Ffurflen Flynyddol

28 Rhaid i'r cyngor hefyd gyhoeddi ei gyfrifon ynghyd ag unrhyw dystysgrif neu adroddiad archwilio erbyn 30 Medi, neu os yw'n eu cyhoeddi cyn i'r archwiliad ddod i ben a bod dim barn o'r fath wedi cael ei rhoi, dylai gynnwys datganiad ac esboniad bod yr archwilydd, ar y dyddiad cyhoeddi, heb roi unrhyw farn.

29 Ceir manylion pellach y gofynion ar gyfer paratoi, cymeradwyo ac archwilio cyfrifon Cynghorau Tref a Chymuned yn Rheoliadau 2014 a ategir gan arweiniad yn y Canllaw ar gyfer Ymarferwyr.

## Arddangosyn 3: cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol

| Blwyddyn ariannol | Dyddiad y cafodd y cyfrifon eu cymeradwyo gan y Cyngor | Dyddiad y cawsant eu cyflwyno i gael eu harchwilio |
|---|---|---|
| 2016-17 | Heb eu cymeradwyo | 26 Tachwedd 2018 |
| 2017-18 | Heb eu cymeradwyo | 26 Tachwedd 2018 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

30 Nid yw'r cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio ar gyfer y naill flwyddyn na'r llall wedi'u hardystio gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol na'u cymeradwyo gan y Cyngor. Hefyd, mae'r cofnodion yn y datganiad cyfrifyddu ar gyfer y ddwy flynedd ariannol yn anghyflawn ac nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r adroddiad archwilio mewnol wedi'u cwblhau.

31 Nid yw Cyngor Cymuned Llanfairpwll wedi cydymffurfio â'r amserlenni statudol a nodir uchod ar gyfer paratoi a chymeradwyo'i gyfrifon ar gyfer 2016-17 a 2017-18, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon hyn.

# Nid yw'r Cyngor wedi cynnal rheolaethau mewnol digonol i ddiogelu ei asedau a'i gyllid

32 Mae'r Canllaw ar gyfer Ymarferwyr yn nodi rhai enghreifftiau o'r mathau o reolaethau mewnol y dylai fod gan gynghorau cymuned ar eu gweithgareddau a'u trafodion. Caiff detholiadau o'r rhain eu nodi yn Arddangosyn 4 isod ynghyd â'r trefniadau gwirioneddol y canfûm eu bod ar waith yn y Cyngor.

Arddangosyn 4: rheolaethau mewnol disgwyliedig a gwirioneddol sydd ar waith yn y Cyngor

| Rheolaeth fewnol ddisgwyliedig | Asesiad archwilio |
|---|---|
| Deilliodd y ffigwr o ran y praesept blynyddol sy'n ofynnol o broses gyllidebol ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol. | • Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y ffigwr o ran y praesept blynyddol sy'n ofynnol wedi deillio o broses gyllidebol ddigonol a bod cynnydd yn erbyn y gyllideb wedi cael ei fonitro'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn. |
| Ymarfer cysoni rhwng cyfrifon y Cyngor a chofnodion bancio annibynnol, h.y. cyfriflenni banc.<br>Mae'r ymarfer cysoni â chofnodion bancio ynghyd â'r cyfriflenni banc diwedd blwyddyn yn darparu sicrwydd pwysig i'r Cyngor bod y cyfrifon a baratowyd gan ei Glerc yn gyflawn ac yn adlewyrchu'r arian a adneuwyd yn y banc. | • Nid oes tystiolaeth i ddangos bod y Cyngor wedi paratoi a chynnal adolygiad annibynnol o gysoniadau banc diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2017 a 2018 yn y drefn honno i gyd-fynd â'r cyfrifon blynyddol. |
| Mae rheolaethau ar wariant yn sicrhau mai dim ond pryniannau angenrheidiol ac awdurdodedig a wneir.<br>Mae rheolaethau hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn gwneud taliadau dim ond am nwyddau a gwasanaethau a geir mewn gwirionedd ac am brisiau y cytunwyd arnynt. Fel corff y mae Adran 33 o Ddeddf Treth Ar Werth 1994 yn berthnasol iddo, gall y Cyngor adennill TAW a delir ar bryniannau. I wneud hynny, dylai'r Cyngor gael derbynebau ac anfonebau TAW sy'n nodi manylion perthnasol y TAW a dalwyd a rhif cofrestru TAW y cyflenwr. | • Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod gweithdrefnau cymeradwyo gwariant y Cyngor yn sicrhau mai dim ond pryniannau angenrheidiol ac awdurdodedig a wneir.<br>• Nid yw taliadau wastad yn cael eu hategu gan wybodaeth ddigonol.<br>• Mae adhawliadau TAW yn cael eu cyflwyno o bryd i'w gilydd i Gyllid a Thollau EM, y cafodd y diweddaraf ohonynt, ar gyfer blynyddoedd ariannol 2015-16 a 2016-17, eu cyflwyno ym mis Chwefror 2018. |

| Rheolaeth fewnol ddisgwyliedig | Asesiad archwilio |
| --- | --- |
| Dylai rheolaethau mewnol fod ar waith i ddiogelu asedau a buddsoddiadau'r Cyngor rhag cael eu colli neu eu difrodi ac i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol yn y gymuned. | Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y Cyngor wedi cynnal cofrestr asedau. |

# Nid yw'r Cyngor wedi dangos bod archwiliad mewnol digonol ac effeithiol yn cael ei gynnal

33 Mae Rheoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gynghorau cymuned sicrhau bod ganddynt system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol. Rôl archwilio mewnol yw archwilio nifer o feysydd allweddol o ran trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol yn y Cyngor ac amlygu unrhyw ddiffygion sylweddol. Mae archwilio mewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith rheolaeth fewnol ar y cyfan. Dylai'r archwilydd mewnol fod yn annibynnol, h.y. peidio â bod ag unrhyw ran ym mhroses benderfynu'r Cyngor nac unrhyw rôl i gynnal y system gyfrifyddu a pharatoi'r cyfrifon blynyddol.

34 Er fy mod wedi gweld peth tystiolaeth i ddynodi bod archwilydd mewnol wedi'i benodi ar gyfer 2016-17, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth o unrhyw waith archwilio mewnol a gyflawnwyd nac o unrhyw allbwn a ddarparwyd ar gyfer y Cyngor mewn perthynas â'r flwyddyn hon. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth bod archwilydd mewnol wedi'i benodi na bod unrhyw waith wedi cael ei wneud mewn perthynas â 2017-18. Hefyd, nid yw'r adrannau archwilio mewnol yn y ffurflenni blynyddol wedi cael eu cwblhau ar gyfer y naill flwyddyn ariannol na'r llall.

# Nid yw'r Cyngor wedi dangos ei fod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldeb statudol i weinyddu TWE yn briodol ac i ddarparu datganiad ysgrifenedig ar yr amodau a thelerau cyflogaeth ar gyfer ei glerc

35 Mae'r rhan fwyaf o Gynghorau Cymuned, fel Llanfairpwll, yn cyflogi un swyddog i gyflawni rôl y Clerc a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol.

36 Fel cyflogwr, mae Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 a Rheoliadau Treth Incwm (TWE) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor weithredu system Talu Wrth Ennill (TWE) mewn perthynas â threth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol.

37 O dan TWE, rhaid i'r Cyngor ddidynnu Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogeion o gyflog cyflogeion ac anfon y symiau a ddidynnwyd at Gyllid a Thollau EM ynghyd ag unrhyw Gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwr.

38 Rhaid i'r holl gyflogwyr gofrestru gyda Chyllid a Thollau EM oni bai nad oes unrhyw un o'u cyflogeion yn cael cyflog o £118 neu fwy yr wythnos, yn cael treuliau a buddion, yn meddu ar swydd arall neu'n cael pensiwn. Fodd bynnag, mae'n dal yn ofynnol iddynt gadw cofnodion ar gyfer y gyflogres.

39 Nid yw'r Cyngor wedi darparu gwybodaeth ddigonol i ddangos ei fod wedi cofrestru fel cyflogwr gyda Chyllid a Thollau EM ac wedi sefydlu trefniadau priodol i ddidynnu treth incwm dan TWE. Ar ben hynny, nid yw'r Cyngor wedi dangos ei fod wedi cynnal cofnodion priodol ar gyfer y gyflogres.

40 Rwyf hefyd yn nodi nad yw'r Cyngor wedi darparu contract cyflogaeth ysgrifenedig ar gyfer y clerc. Cytundeb rhwng cyflogwr a chyflogai yw contract cyflogaeth a dyma'r sail i'r berthynas gyflogaeth. Er nad oes angen i gontract cyflogaeth fod yn ysgrifenedig er mwyn bod yn ddilys yn gyfreithiol, mae contract ysgrifenedig yn helpu i sicrhau bod y naill barti a'r llall yn deall eu priod gyfrifoldebau.

41 Hyd yn oed os yw'r contract cyflogaeth yn bodoli ar lafar, mae gan gyflogeion hawl gyfreithiol i ddatganiad ysgrifenedig o'r prif delerau ac amodau cyflogaeth o fewn dau fis calendr i ddechrau yn y swydd. Dylai hwn gynnwys manylion materion megis cyflog, gwyliau ac oriau gwaith. Nid yw'r Cyngor wedi darparu datganiad ysgrifenedig o delerau ac amodau.

## Nid oes digon o dystiolaeth i gadarnhau a oes trefniadau priodol wedi cael eu gwneud ar gyfer arfer hawliau'r cyhoedd ai peidio

42 Mae Adrannau 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn gwneud darpariaeth ar gyfer hawliau'r cyhoedd i edrych ar y cyfrifon sydd i'w harchwilio, i holi'r archwilydd am y cyfrifon ac i wneud gwrthwynebiadau i'r archwilydd ynglŷn ag unrhyw fater y mae gan yr archwilydd y pŵer i wneud y canlynol mewn perthynas ag ef:

- gwneud cais am ddatganiad bod eitem yn y cyfrifon yn anghyfreithlon; ac
- unrhyw fater arall y mae gan yr archwilydd y pŵer i lunio adroddiad arno dan adran 22 o Ddeddf 2004.

43 Mae Rheoliad 17 yn Rheoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff roi hysbysiad trwy hysbyseb i'r cyhoedd mewn lle neu leoedd amlwg a hwnnw'n nodi'r cyfnod pan fo'r cyfrifon a dogfennau eraill ar gael iddynt edrych arnynt ac yn rhoi'r manylion canlynol:

- y lle y byddant, a'r oriau pan fyddant, ar gael ar gyfer hyn;
- enw a chyfeiriad yr archwilydd;
- y darpariaethau yn adran 30 ac adran 31 o Ddeddf 2004; a hefyd
- y dyddiad a bennwyd dan Reoliad 21 o Reoliadau 2014.

44 Er bod y Cyngor wedi nodi bod yr hysbysiad o hawliau'r cyhoedd wedi'i arddangos ar hysbysfwrdd y pentref, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y

Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion y Ddeddf. Felly, fe bennais 29 Gorffennaf 2019 fel y dyddiad cyntaf pan allai etholwyr arfer eu hawliau ar gyfer cyfrifon 2016-17 a 2017-18 dan Ddeddf 2004.

## Mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'i ddyletswyddau cyfreithiol i fabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau ac i gadw cofrestr o fuddiannau'r aelodau

45 Rhan hanfodol o fframwaith llywodraethu unrhyw gorff yw'r ymddygiad a ddangosir gan aelodau'r corff hwnnw. Fe greodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Fe greodd bŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymddygiad enghreifftiol i fod yn berthnasol i aelodau ac aelodau cyfetholedig yr holl awdurdodau perthnasol yng Nghymru.

46 Mae'n ofynnol i gynghorau lleol fabwysiadu'r Cod enghreifftiol yn ei gyfanrwydd, ond gallant wneud ychwanegiadau at y Cod, ar yr amod bod y rhain yn gyson â'r Cod Enghreifftiol. Wedyn mae'r Cod a fabwysiadwyd yn lleol yn rhan annatod o fframwaith llywodraethu'r cyngor unigol.

47 Yn ystod fy archwiliad nid oeddwn yn gallu dod o hyd i dystiolaeth bod y Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer yr aelodau.

48 Wrth gyflawni eu dyletswyddau, mae angen i aelodau benderfynu a oes ganddynt fuddiant personol ac, os felly, a oes angen iddynt ei ddatgelu. Lle mae gan aelodau fuddiant y dylid ei ddatgelu, dylai'r ffaith bod buddiant i'w gael a natur y buddiant hwnnw gael eu datgelu mewn cyfarfodydd, wrth wneud sylwadau ysgrifenedig, gan gynnwys negeseuon e-bost, ac wrth wneud sylwadau ar lafar. Mae'r datgeliad hwn yn ofynnol hyd yn oed os yw'r buddiant wedi'i gofnodi ar gofrestr buddiannau'r Cyngor.

49 Mae Adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gadw cofrestr o fuddiannau a ddatgelwyd a chyhoeddi'r gofrestr honno'n electronig.

50 Nid yw'r Cyngor wedi darparu digon o dystiolaeth i ddangos ei fod wedi cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'i fod yn cadw cofrestr o fuddiannau. Er y gall aelodau fod yn ymwybodol o'r angen i ddatgelu buddiannau mewn cyfarfodydd, mae'r Cyngor wedi methu â chydnabod bod rhaid iddo gadw a chyhoeddi cofrestr hefyd.

## Er bod gwefan gan y Cyngor, nid yw'n cyhoeddi'r holl ddogfennau y mae'n ofynnol iddo'u cyhoeddi'n electronig

51 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor lleol drefnu bod eu manylion cyswllt a manylion eu haelodau, a chofnodion eu trafodion ar gael yn electronig ar ei wefan. Mae Deddf 2013 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi eu cofrestr o fuddiannau'r aelodau, hysbysiadau cyhoeddus a chyfrifon archwiliedig yn electronig.

52 Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2013 wedi'u bwriadu i wella atebolrwydd cynghorau lleol i'w hetholaethau.

53 Canfu fy archwiliad fod y Cyngor wedi sefydlu gwefan, ond nad yw wedi cyhoeddi'r wybodaeth y mae'n ofynnol iddo'i chyhoeddi'n electronig. Nid yw'r wefan yn cynnwys copi o gofrestr y Cyngor o fuddiannau'r aelodau, hysbysiadau archwilio, cyfrifon archwiliedig na chofnodion cyfarfodydd (ers mis Tachwedd 2017).

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru